Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# ADOLYGIAD O BLANT AR REMAND YN Y DDALFA

IONAWR 2022

# 3 CRYNODEB GWEITHREDOL

1. Dylai cadw plant yn y ddalfa fod yn ddewis olaf bob amser. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae traean o'r plant a'r bobl ifanc sydd yn y ddalfa yno ar remand, gyda'r ffigur hwn mor uchel â 45% yn 2021. Mae'r ffaith hon wedi arwain at gryn dipyn o graffu ac argymhelliad gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA) bod y llywodraeth yn archwilio graddfa a phriodoldeb remand yn y ddalfa i bobl ifanc, sef hanfod y gwaith hwn.
2. Cynhaliodd Uned Polisi Cyfiawnder Ieuenctid y Weinyddiaeth Gyfiawnder yr adolygiad hwn ar draws Cymru a Lloegr. Mae'n cyflwyno elfennau o ddadansoddi'r sefyllfa, arfer gorau a chynigion ar gyfer gwella. Mae'r adolygiad hwn wedi ei anelu'n bennaf at ymarferwyr sy'n ymwneud â'r broses remand, ac mae'n ganlyniad gwaith ymgysylltu helaeth ag amrywiaeth eang o randdeiliaid a phartneriaid yn y system cyfiawnder ieuenctid.
3. Mae ein canfyddiadau'n cwestiynu naratif cryf bod nifer y plant ar remand wedi cynyddu'n sylweddol neu fod remand yn y ddalfa'n cael ei 'orddefnyddio' yn rheolaidd, fel yr adroddwyd yn aml. Mae'r realiti'n fwy cymhleth na hynny.

   - Mae nifer y plant ar remand yn y ddalfa a nifer cyffredinol yr achosion remand wedi gostwng yn sylweddol dros y degawd diwethaf, ac yn y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y plant ar remand yn y ddalfa wedi aros yn weddol sefydlog. Fodd bynnag, wrth i nifer y plant sydd yn y ddalfa ostwng, mae nifer y plant ar remand fel cyfran o gyfanswm poblogaeth y carchar wedi cynyddu.
   - Ar yr un pryd, rydym wedi gweld cynnydd mewn dedfrydau am droseddau difrifol1 fel cyfran o'r holl ddedfrydau o garchar a gostyngiad mewn Gorchmynion Cadw a Hyfforddi. Gallai hyn fod yn arwydd bod y dargyfeirio o'r carchar yn fwy amlwg ar y lefel is o ddifrifoldeb trosedd lle mae plant yn llai tebygol o fod ar remand yn y ddalfa.
   - Mae ymgysylltu â phartneriaid ar draws y system yn dangos tystiolaeth o ystyriaeth ofalus o benderfyniadau remand ac ymdrechion sylweddol i sicrhau bod dewisiadau hyfyw yn lle remand yn y ddalfa ar gael.
   - Fodd bynnag, mae'r ffaith bod tua un rhan o bump o'r achosion remand yn para llai na 7 diwrnod, neu fod cyfran mor fawr o blant ar remand yn y ddalfa naill ai'n cael eu rhyddhau neu'n peidio â chael dedfryd o garchar, yn cyfiawnhau craffu'n fanwl.
   - Canfu dadansoddiad diweddar o'r data fel rhan o ymchwil a gomisiynwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid fod plant yn fwy tebygol o fod ar remand yn y ddalfa os oeddent yn wrywaidd, yn hŷn a heb fod yn lleol, wedi cyflawni troseddau mwy difrifol, neu'n cael eu barnu fel rhai a oedd yn fwy tebygol o aildroseddu, mewn mwy o risg o gyflawni niwed difrifol neu os oedd pryderon ynghylch diogelwch a lles, neu fod eu hachosion yn cael eu gwrando yn Llys y Goron.

- Mae'n amlwg nad yw data ar ei ben ei hun yn egluro'n bendant y rhesymau y tu ôl i fod ar remand yn y ddalfa. Yn hytrach, mae cyfuniad o ffactorau'n dylanwadu ar benderfyniadau remand. Mae'r rhain yn cynnwys y ffactorau hynny a grybwyllir uchod, yn ogystal ag a oes dewisiadau cadarn ar gael yn y gymuned yn lle cadw rhywun yn y ddalfa.
- Mae remand yn broses gymhleth iawn o wneud penderfyniadau ac mae'r penderfyniadau'n amodol ar fframwaith deddfwriaethol llym. Yn ei hanfod, rhywbeth dros dro yw remand (mae'n rhan annatod o'r system gyfiawnder) ac mae'n dibynnu'n fawr ar wybodaeth a ddarperir gan bartneriaid lleol (gwasanaethau cymdeithasol, Timau Troseddwyr Ifanc ac ati) nad yw bob amser yn gyflawn. Rhaid i lysoedd gadw eu gallu i remandio plentyn i'r ddalfa lle bo angen.

4. Rhaid i ni sicrhau cydbwysedd rhwng gwarchod lles a budd pennaf plentyn ar un llaw a diogelu'r cyhoedd rhag niwed ar y llaw arall. Er bod diogelwch y cyhoedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r llywodraeth hon, mae lle i weithredu'n ystyrlon er mwyn gwella ymarfer gweithredol, a lleihau achosion lle mae remand yn y ddalfa yn ddewis cyntaf, yn hytrach na'n rheidrwydd. Rydym yn cyfeirio at arferion da a chynigion er mwyn gallu gwella.

   - Rydym yn cydnabod cymhlethdod y mater hwn, ac y bydd hon yn broses barhaus o wella yn hytrach na'n drawsnewidiad ar unwaith. Mae ein camau nesaf yn gyfuniad o fesurau llai, gan gynnwys gweithio'n well mewn partneriaeth a gwella'n barhaus yn hytrach nag un ateb pendant.
   - Mewn system gymhleth, rydym hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd gweithredu y tu hwnt i ddylanwad uniongyrchol llywodraeth ganolog, gan gynnwys amrywiaeth o bartneriaid ac actorion lleol mewn meysydd polisi a chyflwyno ehangach.

5. Mae'r llywodraeth eisoes yn cymryd camau deddfwriaethol i dynhau'r profion y mae'n rhaid i'r llysoedd eu defnyddio i remandio plant i'r ddalfa gyda mesurau ym Mil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd a gyflwynwyd i'r Senedd ar 9 Mawrth 2021. Mae'r rhain yn sicrhau bod yna far uchel i'w gyrraedd i gyfiawnhau defnyddio remand yn y ddalfa a'i gwneud yn ofynnol i farnwyr gofnodi eu cyfiawnhad. Fodd bynnag, bwriad y newidiadau hyn yw ceisio gofalu nad ydynt yn clymu dwylo'r farnwriaeth wrth sicrhau bod remand yn y ddalfa yn parhau i fod yn opsiwn pan fo angen i amddiffyn y cyhoedd.
6. Gellir cryfhau'r arferion gweithredol a'r ddarpariaeth rheng flaen. Gan fod modd anwybyddu remand (nid yw'n ddedfryd, nac yn fater o garcharu ac ailsefydlu), byddwn yn blaenoriaethu hyn fel amcan strategol ac yn gofyn i bartneriaid wneud yr un peth. Rydym yn trafod amrywiaeth o weithgareddau i wella partneriaeth effeithiol rhwng asiantaethau, gwell trosolwg a chraffu ar benderfyniadau remand, gwell canllawiau a hyfforddiant a gwelliannau o ran sut mae data'n cael ei gasglu a'i ddadansoddi'n rheolaidd.
7. Dylem wella'r ddarpariaeth llety a'r ddarpariaeth gymunedol i sicrhau bod dewisiadau cadarn yn lle carcharu ar gael lle gellir rheoli risg yn effeithiol. Rydym yn edrych ar hybu argaeledd Mechnïaeth gyda Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys ac yn edrych ar ddatblygu llety awdurdod lleol a dewisiadau eraill yn y gymuned yn lle remand.

8. Mae gwahaniaethau hil o blith y rhai sydd ar remand yn fater hysbys ac mae angen rhoi sylw i hyn. Mae angen i ni ddeall y sail ar gyfer y gwahaniaethau hyn er mwyn gwybod lle mae'n briodol i ni gymryd camau gweithredu. Mae ymchwil diweddar gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn dangos bod ffactorau gwrthrychol (fel nodweddion demograffig, troseddau a hanes troseddau, lleoliad a math o lys) ac asesiadau ymarferwyr yn gallu egluro llawer o'r gwahaniaeth cychwynnol trawiadol. Fodd bynnag, ar ôl rheoli'r ffactorau hyn, nid oedd modd egluro'r gwahaniaeth yn llawn, ac roedd plant du dal yn llai tebygol o fod ar remand yn y gymuned (8 pwynt canran). Mae adroddiad y Comisiwn ar Wahaniaethau Hil ac Ethnigrwydd yn tynnu sylw at bwysigrwydd deall yr hyn sy'n sbarduno gwahaniaethau, a dylai gwaith ar remand yn y dyfodol adeiladu ar y dull gweithredu hwn.
9. Ni ellir gweld y materion a nodwyd yn yr adolygiad hwn mewn perthynas â remandio fel materion ar wahân, a bydd angen i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder barhau i weithio ar draws y llywodraeth i sicrhau ein bod i gyd yn chwarae ein rhan i helpu i atal plant rhag ymwneud â throseddu.
10. Dechreuodd y pandemig tra'r oedd yr adolygiad ar waith, ac er ein bod yn ymgorffori elfennau o'r gwersi a ddysgwyd (fel gwaith i leihau oedi yn y llys), nid yw'r adolygiad hwn yn ymwneud ag asesu effaith COVID-19 ar y system gyfiawnder.